**CYFARFOD Y CYNGOR** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 17eg Ionawr 2018 yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Ffordd Wellington, y Rhyl yn dechrau am 6.00pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd A. R. James (Maer)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, Ms J. Hughes, A. S. Johnson, B. Jones, K. R. Jones, Mrs P. M. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast a T. Thomas.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

## 95. DECHRAU'R CYFARFOD

Cychwynodd Caplan y Maer, y Parchedig Andy Grimwood, y cyfarfod trwy arwain pawb a oedd yn bresennol mewn gweddi.

## 96. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr Mrs J. Butterfield YH MBE, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford a Miss C. L. Williams.

## 97. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

Y Cyngor - 20fed Rhagfyr 2017 - Rhifau Cofnod 81-94

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. R. James ac eiliwyd gan y Cynghorydd B. Mellor a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Pwyllgor Cynllunio - 20fed Rhagfyr 2018 - Rhifau Cofnod 40-43

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

## 98. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU – RHAGFYR 2017

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu'r atodlen o daliadau a wnaed.

| Rhif Taleb | Enw Cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 392 | Sage & Co | 30.00 | Gwasanaeth cyflogres Rhagfyr 2017 |
| 393 | BT | 123.24 | Rhentu llinell rhyngrwyd |
| 394 | HSBC | 8.05 | Taliadau banc 17 Hyd i 16 Tach 2017 |
| 395 | Neopost | 200.00 | Ychwanegiad i'r peiriant ffrancio |

| Rhif Taleb | Enw Cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 396 | Sioned Graham-Cameron | 410.11 | Gwasanaethau cyfieithu |
| 401 | HSBC | 32.00 | Ffi flynyddol ar gyfer cerdyn |
| 402 | Cyngor Sir y Fflint | 4,140.80 | Cyfraniadau pensiwn ac ariannu diffyg Tachwedd 2017 |
| 403 | HMRC | 2,557.42 | Didyniadau cyflogres Tach 2017 |
| 404 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 6,669.96 | Cyflogau staff Tach 2017 |
| 405 | Gunsmoke Communications | 1,440.00 | Gwasanaethau Tach 2017 |
| 260 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 916.66 | Cyfraniad swyddog apeliadau 9 o 12 |
| 258 | Cyngor Sir Ddinbych | 686.00 | Treth y Cyngor 2017/18, taliad 9 o 10 |
| 406 | BT | 138.50 | Rhentu llinell |
| | Cyfanswm taliadau | 17,352.74 | |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

## 99. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref Atodlen B (byddai rhestr o daliadau anrheolaidd yn cael ei rhyddhau dros y mis i ddod) a manylion un cyflenwr ychwanegol i'w ychwanegu i'r rhestr o gyflenwyr ar ôl cymeradwyaeth gan yr aelodau.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r canlynol i gael eu talu a'u llofnodi gan y Maer a'r Cynghorydd S. Harris.*

*Taliadau Atodlen B i'w cymeradwyo (13eg Rhagfyr 2017 – 9fed Ionawr 2018)*

| Cyflenwr | Manylion Cyflenwad | Rhif Taleb | Dyddiad | Swm £ |
|---|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Ddinbych | Rhent lloches bws Tir Morfa | 412 | 01/01/18 | 1.00 |
| Cyngor Sir Ddinbych | Rhent Gerddi Coffa | 413 | 01/01/18 | 13.50 |
| Arian Mân | Ychwanegiad | 414 | 19/12/17 | 200.00 |
| Cyngor Sir Ddinbych | Cyfraniad digwyddiadau 2017/18 – Sioe Awyr, Nadolig ac Arena | 415 | 04/01/18 | 19,000.00 |
| Cymdeithas Cynghorau Tref Gogledd a Chanolbarth Cymru | Cinio i bedwar cynrychiolwyr yn y cyfarfod ar 19/1/18 | 416 | 11/01/18 | 64.00 |
| **Cyfanswm Atodlen B** | | | | **£19,278.50** |

## 100. ADRODDIAD PERFFORMIAD BUDDSODDI

Cyflwynodd Clerc y Dref ei gyd-adroddiad ef a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) ar berfformiad yn nhrydydd chwarter blwyddyn ariannol 2017/18.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

**101. PENODI ARCHWILWYR MEWNOL AC ALLANOL AR GYFER 2018/19**

Cyflwynodd Clerc y Dref ei gyd-adroddiad ef a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) ar benodi archwilwyr y Cyngor.

Atgoffodd Clerc y Dref yr aelodau bod yr archwiliwr allanol yn cael ei benodi gan Swyddfa Archwilio ac y byddai'n BDO LLP.

Archwiliwr mewnol presennol y Cyngor oedd JDH Business Services.

Dywedodd Clerc y Dref wrth yr aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant personol neu fusnes sydd ganddynt gyda'r ddau gwmni.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo penodiad JDH Business Services.*

**102. ADRODDIAD ARCHWILIO MEWNOL INTERIM**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at yr adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn nodi pedwar maes sydd angen eu hystyried a / neu angen gweithrediad gan y Cyngor Tref.

Esboniodd Clerc y Dref gyngor yr archwiliwr yn gryno yn y meysydd hyn ac awgrymu y dylid cyfeirio'r adroddiad at Is-bwyllgor Asesu Risg y Cyngor i'w ystyried yn drylwyr.

***PENDERFYNWYD*** *cyfeirio'r adroddiad at yr Is-bwyllgor Asesu Risg.*

**103. YMGYNGHORIAD: LLYWODRAETH CYMRU – AROLWG O'R SECTOR CYNGHORAU TREF A CHYMUNED YNG NGHYMRU**

Adroddodd Clerc y Dref iddo dderbyn yr uchod (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen), dogfen bwysig a fyddai'n llunio dyfodol Cynghorau Tref a Chymuned.

Teimlai'r aelodau y dylai Cynghorau Tref a Chymuned gael mwy o gyfrifoldebau, ond y dylent hwy ddewis y cyfrifoldebau hynny yn hytrach na chael eu gorfodi arnynt, a dod gyda'r lefel briodol o ariannu.

Teimlent y dylai'r rheol presenoldeb chwe mis ar gyfer cynghorwyr ddod i lawr, gan fod diffyg presenoldeb mewn cyfarfodydd yn rhoi mwy o bwysau ar gynghorwyr sy'n mynychu'n rheolaidd, i gymryd penderfyniadau ar eu rhan a hefyd i ffurfio'r nifer o bwyllgorau ac is-bwyllgorau eraill gyda'r cynnydd yn y baich gwaith sy'n deillio.

At hyn, credai'r aelodau y gellid gwneud mwy i annog pobl i sefyll mewn etholiadau ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned, ac y byddai hyn yn mynd beth ffordd tuag ar wella lefel cynrychiolaeth wirioneddol eu cymunedau.

Hysbysodd Clerc y Dref ymhellach bod Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru i gynnal seminar i benderfynu ar ei ymateb i'r cwestiynau.

Dywedodd cynrychiolydd ar y Gymdeithas y byddai'n fuddiol i farn y Cyngor fod yn hysbys cyn y Seminar er mwyn galluogi eu hadrodd.

***PENDERFYNWYD***

(a) *Bod Clerc y Dref yn ebostio pedwar cwestiwn y Panel Arolygu Annibynnol i'r holl gynghorwyr i'w alluogi ef i ddod â'r sylwadau at ei gilydd i'w cymeradwyo gan y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol.*
(b) *Bod y Cynghorydd B. Mellor hefyd yn mynychu cyfarfod nesaf Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru i gymryd rhan yn y Seminar a bod yr Aelodau hynny sy'n medru yn ymateb i ebost Clerc y Dref er mwyn bwydo gwybodaeth i ymateb y cynrychiolwyr.*

**104. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – TIR YN YSGOL UWCHRADD Y RHYL, GRANGE ROAD, Y RHYL**

Adroddodd Clerc y Dref iddo dderbyn yr uchod (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn gofyn am farn y Cyngor Tref ar waredu darn o dir sy'n cyffinio busnes lleol.

***PENDERFYNWYD*** *nad oedd cynghorwyr y ward yn gwrthwynebu.*

**[Datganodd y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James fuddiant personol yn yr eitem uchod oherwydd ei swydd fel Llywodraethwr AALl yn Ysgol Uwchradd y Rhyl ac arhosodd yn y Siambr ond ni chymerodd ran yn y drafodaeth na'r pleidleisio ar y mater.**

**105. EITEMAU ER GWYBODAETH**

Dywedodd y Maer nad oedd materion brys i'w codi.

**106. HOLI AC ATEB**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

**107. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

**108. EITEM SEFYDLOG – GORCHMYNION CAU HEDDLU GOGLEDD CYMRU**

Ymhellach i gofnod rhif 79 cyfarfod a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, dywedodd Clerc y Dref nad oedd unrhyw geisiadau wedi eu derbyn gan Heddlu Gogledd Cymru.

**109. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw eitemau busnes pellach, dywedodd y Maer bod cyfarfod y Cyngor wedi dod i ben.

Maer:………….……………..

Dyddiad: ……………………